Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau

CHEME

Centre for Health Economics and Medicines Evaluation

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

HAF 2016

YN Y RHIFYN HWN...

Rhoi sylw i ymchwil
Digwyddiadau i ddod
Newyddion am Staff
Digwyddiadau Diweddar
Cyhoeddiadau diweddar

Croeso i newyddlen Haf 2016 y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME)

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar lwyddiannau a gweithgareddau ymchwil yn CHEME ystod y chwe mis diwethaf. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys: Adroddiad terfynol y treialu dan nawdd NIHR HTA ar PET/CT yn y diagnosis pan amheuir canser y pancreas (PET-PANC) a'r rheoli arno wedyn, papurau'r Lancet yn adrodd am dreialon CATCH ar gathetrau gwythiennol canolog trwythedig i rwystro heintiau llif y gwaed mewn plant, y cwrs byr ar Economeg Iechyd i Ymarfer ac Ymchwil Iechyd Cyhoeddus, a gweithgareddau sydd a wnelont â gwerthuso meddyginiaethau newydd yng Nghymru.

Ceir mwy o wybodaeth ar ymchwil, dysgu a gweithgareddau cefnogol y GIG ar ein gwefan: cheme.bangor.ac.uk neu drwy gysylltu â'n gweinyddwr Ann Lawton: cheme@bangor.ac.uk
Dilynwch ni ar Twitter @CHEMEBangor

Yr Athro Dyfrig Hughes a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards

Cyd-gyfarwyddwyr CHEME

Rhiannon Tudor Edwards yn cyflwyno yn y cwrs byr 2 ddiwrnod ar Economeg Iechyd ar gyfer Ymarfer ac Ymchwil i Iechyd Cyhoeddus ym Mawrth 2016

RHOI SYLW I YMCHWIL...

Gwneud Diagnosis Canser y Pancreas (Astudiaeth PET-PANC HTA)

Mae Catrin Plumpton, Huw Lloyd-Williams, Seow Tien Yeo a Rhiannon Tudor Edwards wedi cwblhau modelu economaidd yr astudiaeth PET-PANC a ariennir gan yr NIHR-HTA.

Gall gwneud diagnosis o ganser y pancreas fod yn anodd mewn 10-20% o gleifion. Mae PET/CT yn ychwanegu lleoleiddio anatomaidd manwl at y data gweithrediadol. Dilynodd PET-PANC 589 o gleifion ar draws 18 canolfan yn y DU. Yn PET-PANC cafodd y cleifion FDG PET/CT yn dilyn CT aml-ganfodydd. Cofnodwyd y diagnosis, y camau a'r rheoli arfaethedig cyn FC+DG PET/CT ac ar ei ôl.

Defnyddio Ymwybyddiaeth Ofalgar ar gyfer Ymddygiad Treisgar - pobl gydag Anableddau Dysgu (UMAA-LD)

Mae Lucy Bryning a Rhiannon Tudor Edwards yn cydweithio gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Warwick, ar astudiaeth beilot dan nawdd ariannol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ymyriad "Ymwybyddiaeth Ofalgar Gwadnau'r Traed", mewn sampl o 20 o oedolion gydag anawsterau dysgu ac anhawster rheoli dicter. Mae Ymwybyddiaeth Ofalgar yn dechneg myfyrio lle mae unigolion yn dysgu dod â'u sylw yn ôl at y foment bresennol. Mae ymyriad Gwadnau'r Traed yn therapi un wrth un, sy'n ymwneud â dysgu i'r unigolyn gyfeirio ei sylw at ran niwtral o'r corff (gwadnau'r traed) er mwyn ei gynorthwyo i reoli ei ddicter a dileu ymddygiad treisgar. Prif amcan y project yw asesu dichonoldeb yr ymyriad, priodolrwydd mesuriadau'r canlyniad ac i hysbysu'r protocol ar gyfer treialu yn y dyfodol.

Asesu meddyginiaethau newydd ar gyfer AWMSG

Am dros 12 mlynedd, mae Dyfrig Hughes a chydweithwyr iddo yn CHEME wedi cynnig cefnogaeth economeg iechyd i Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan, ysgrifenyddiaeth Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG). Roedd hyn yn cynnwys rhoi arweiniad strategol a sesiynau hyfforddi i wneuthurwyr penderfyniadau, ysgrifennu adroddiadau asesu (ar gyfer dros 200 o feddyginiaethau) ac aelodaeth o'r pwyllgorau gwerthuso. Ar hyn o bryd, mae Eifiona Wood ac Emily Holmes yn olygyddion ar adran economeg iechyd yr adroddiadau asesu, ac mae Dyfrig Hughes yn aelod fel economegydd iechyd o'r AWMSG.
http://www.awmsg.org

DIGWYDDIADAU I DDOD...

Symposiwm Ymchwil Meddyginiaethau Gogledd Cymru

Bydd Dyfrig Hughes yn cynnal Symposiwm Ymchwil Meddyginiaethau Gogledd Cymru 2016 ar 11 Gorffennaf. Noddir yr achlysur blynyddol gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, BCUHB, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Phrifysgol Bangor. Y prif siaradwr eleni yw'r ffarmacolegydd clinigol yr Athro Robin Ferner o Brifysgol Birmingham.

http://cheme.bangor.ac.uk/nwmrs

Seminarau awr ginio CHEME

Yng ngwanwyn 2016, mae wedi bod yn bleser gennym groesawu siaradwyr o bell ac agos. Mae podlediadau clywedol a sleidiau ar gyfer rhai seminarau ar gael ar ein gwefan.

Fis Mawrth, rhannodd yr Athro Jo Coast o Brifysgol Bryste ei phrofiadau o ddulliau ansoddol mewn ymchwil economeg iechyd, gan ganolbwyntio ar ei gwaith mewn gofal diwedd oes. Bu i'r Dr Chris Johnson, Gofal Iechyd Cymru, gyflwyno gwaith yn ymchwilio i effaith bosibl menter arddweud digidol BCUHB yn Ebrill. Dychwelodd yr Athro Michael Shields o Brifysgol Monash, Melbourne, at ei wreiddiau yng ngogledd Cymru i gyflwyno ar "Health in a recession: evidence from the UK". Disgrifiodd Rebecca Worboys ei gwaith fel economegydd iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Lloegr ac o Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain cafwyd cyflwyniad gan yr Athro Richard Smith ar "It's the economy, stupid!: 'whole economy' modelling of health (care)", a siaradodd Dr Manuel Gomes am ddulliau priodol ar gyfer dadansoddi data coll mewn gwerthusiadau economeg iechyd ar hap-dreialon dan reolaeth.

Mae'r siaradwyr i ddod yn cynnwys:

- 5 Gorffennaf - Yr Athro Sarah Byford, Kings College Llundain
- 6 Medi – Yr Athro Alex Anstey, Dermatolegydd Ymgynghorol, BCUHB
- 4 Hydref – Yr Athro Colin Green, Prifysgol Exeter
- 1 Tachwedd - Yr Athro Katherine Payne, Prifysgol Manceinion
- 6 Rhagfyr - Yr Athro Richard Bendall, Prifysgol Lerpwl

NEWYDDION AM STAFF...

Gwahoddwyd Rhiannon Tudor Edwards a Nathan Bray i gwrdd â'r Farwnes Jane Campbell o Dŷ'r Arglwyddi i drafod mesur yr ansawdd bywyd o ran iechyd sydd gan bobl sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol.

Rhiannon Tudor Edwards, Guy L'Etang, (Ymchwilydd y Farwnes Campbell) Nathan Bray a'r Farwnes Jane Campbell y tu allan i Dŷ'r Arglwyddi

Penodwyd Dyfrig Hughes fel aelod economegydd iechyd o Grŵp Strategol Meddyginiaethau Cymru Gyfan, a hefyd ar y tasglu Genomeg dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Cadeirir y tasglu gan Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru, a bydd yn cefnogi datblygu strategaeth a fydd yn canolbwyntio ar y llwyfannau a'r camau ymlaen sydd eu hangen mewn genomeg i danategu meddyginiaethau manwl. Yn arwyddocaol, bydd a wnelo'r rhain â gwasanaethau geneteg clinigol a labordy, ymchwil ac arloesi, partneriaethau strategol a gweithlu'r GIG.

Penodwyd Rhiannon a Dyfrig yn Uwch Arweinwyr Ymchwil i Ymchwil Iechyd a Gofal. Byddant yn gweithredu fel llysgenhadon i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac yn chwarae rhan arweiniol wrth godi proffil ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

Digwyddiadau Diweddar

Cynhadledd Ffarmacoleg Glinigol

Dyfrig Hughes oedd yn croesawu'r Gynhadledd Ffarmacolegol Glinigol ym mis Mai. Noddir y cyfarfod bob hanner blwyddyn hwn gan Gymdeithas Pharmacolegol Prydain ac mae'n dod ag academyddion a chlinigwyr at ei gilydd i gyflwyno ymchwil ar ffarmacoleg a therapiwteg glinigol.

Yn y cyfarfod eleni cafwyd cyflwyniadau gan Dyfrig Hughes ar ryngweithio cyffuriau sy'n economaidd ffafriol, Mark Pucci (Birmingham) ar ymatebion drwg i'r cyffur 'anterth cyfreithiol' cannabinoid synthetig NM-2201, Robin Ferner (Birmingham) ar samplo post-mortem o'r bustl, Jeff Aronson (Rhydychen) ar sut mae gwallau sillafu ar enwau cyffuriau yn effeithio ar chwiliadau adolygu systematig, Phil Routledge (Caerdydd) ar ddiogelwch meddyginiaeth, Rachel Bryan (Abertawe) ar broblemau a achosir gan enwau cyffuriau sy'n debyg i'w gilydd, ac Emily Holmes ar ddewisiadau cleifion ar gyfer canlyniadau mewn treialon cyffuriau gwrth-epileptig.

Cwrs Byr 2 Ddiwrnod - Economeg Iechyd ar gyfer Ymarfer ac Ymchwil i Iechyd Cyhoeddus

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd y cwrs Economeg Iechyd ar gyfer Ymarfer ac Ymchwil i Iechyd Cyhoeddus gennym yn y Ganolfan Reolaeth, Prifysgol Bangor. Mynychwyd y cwrs gan gynrychiolwyr rhyngwladol, cynrychiolwyr o Iechyd cyhoeddus Lloegr, Prifysgol Efrog ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y cwrs byr yn ymdrin â: Yr heriau wrth ddefnyddio dulliau gwerthuso economaidd gydag ymyriadau ym maes iechyd cyhoeddus: Modelu economaidd ymyriadau ym maes iechyd cyhoeddus; Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) gydag enghraifft o fyd tai; a Blaenoriaeth o ran Gwario Iechyd Cyhoeddus drwy ddefnyddio Cyllidebu Rhaglen a Dadansoddi Ymylol (PBMA).

Am fwy o wybodaeth am ddigwyddiad y flwyddyn nesaf: http://cheme.bangor.ac.uk/health-economics-course-16

Cyfrannodd Colin Ridyard, Dyfrig Hughes, a Lorna Tuersley at weithdy ar Gynlluniau Dadansoddi Economeg Iechyd (HEAP) ym Mryste. Mynychwyd hwn gan ac dros 50 o economegwyr iechyd, roedd y gweithdy, a ariannwyd gan yr MRC, yn anelu at ddechrau dialog a dechrau datblygu templed HEAP i'w ddefnyddio mewn treialon clinigol. Cafwyd cyflwyniad gan Dyfrig Hughes ar dreialon a thrafferthion HEAP yng nghyd-destun dau hap-dreial wedi'u rheoli a gwblhawyd yn ddiweddar.

Diwrnod Ymchwil Ol-radd yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd

Ar 18 Mai 2016 mynychodd myfyrwyr PhD CHEME ddiwrnod ymchwil Ôl-radd yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd. Llongyfarchiadau i'r fyfyrwraig PhD Siobhan Bourke, a enillodd y wobr am y poster am ymchwil ar ddewisiadau'r cyhoedd ar gyfer ariannu cyffuriau amddifad. Roedd Siobhan hefyd yn cyd-gyflwyno sesiwn gyda'r fyfyrwraig PhD Eira Winrow, yn hyrwyddo rhwydweithio a mentrau ysgrifennu rhwng myfyrwyr ôl-radd.

Siobhan a'i phoster buddugol

Gŵyl Newid Ymddygiad

Roedd gan CHEME stondin yn hyrwyddo'r ystod helaeth o ymchwil newid ymddygiad a wneir yn y Ganolfan yn yr Ŵyl Newid Ymddygiad, a gynhaliwyd ym Mangor. Cyflwynodd Emily Holmes weithdy ar ddeall cadw at feddyginiaeth ar ddiwrnod Dyfodol Gofal Iechyd, a fynychwyd gan gleifion, clinigwyr ac ymchwilwyr.

Mae gan CHEME bortffolio ymchwil ymddygiad eang sy'n ymestyn o adolygiadau systematig ar fframweithiau theoretig i egluro ymddygiad, at ddadansoddi cost-effeithiolrwydd ymyriadau newid; a hynny ynghylch rhagnodi ac yn fwy cyffredinol mewn iechyd cyhoeddus.

Emily Holmes yn yr ŵyl newid Ymddygiad

Cyflwyniadau

Rhoddodd Seow Tien Yeo gyflwyniad poster ar 'The health economics of EUS staging in patients with gastro-oesophageal cancer (GOC) and current Cymdeithas clinical practice in Wales' yn y Symposiwm Gastroberfeddol Uchaf ar y cyd rhwng Cymdeithas Gastroenteroleg ac Endoscopi Cymru (WAGE) a Chymdeithas Llawfeddygon Gastroberfeddol Uchaf Prydain Fawr ac Iwerddon (AUGIS) yng Nghaerdydd.



Seow Tien Yeo yn cyflwyno ei phoster

Cyflwynodd Dyfrig Hughes bapur ar gost-effeithiolrwydd rhwystro camgymeriadau wrth roi meddyginiaeth yn Sefydliad Ettore Majorana a'r Ganolfan Diwylliant Gwyddonol, Erice, Sicili. Mae'r encilfan hon yn cynnig fforwm wych ar gyfer dysg a dadl wyddonol. http://tinyurl.com/Erice2016

Ym mis Mai, cyflwynodd Dyfrig bapur ar faterion ansicrwydd ac ad-daliadau gyda'r cynyddu ar ryddhau cyffuriau yn y Ganolfan Fonitro Gwyliadwriaeth Ffarmocoleg, Uppsala, Sweden.

Cyflwynodd Rhiannon Tudor Edwards bapur ym Mhrifysgol Efrog o dan y teitl "Assets and Actions – Exploring the Case for Investment in Early Years in Wales" Mawrth 2016.

Cyflwynodd Rhiannon Edwards sgwrs TED dan y teitl "Promoting Resilience through Sight Loss: the view from inside my head". https://www.youtube.com/watch?v=7sv3pj5vfkA

Cyflwynodd Emily Holmes waith ar beth sydd orau gan gleifion o ran cyffuriau gwrthepilectig yng Nghynhadledd Ffarmacolegol Clinigol Cymdeithas Ffarmacolegol Prydain a gynhaliwyd ym Mangor ym mis Mai.

Cyflwynodd Dyfrig Hughes bapur ar gadw at feddyginiaeth yn Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol Prifysgol Caerdydd.

Cyhoeddiadau Diweddar

Hughes D, Charles J, Dawoud D, Edwards RT, Holmes E, Jones C, Parham P, Plumpton C, Ridyard C, Lloyd-Williams H, Wood E, Yeo ST. Conducting Economic Evaluations Alongside Randomised Trials: Current Methodological Issues and Novel Approaches. PharmacoEconomics. 2016. DOI: 10.1007/s40273-015-0371-y

Plumpton CO, Morris T, Hughes D, White I. Multiple imputation of multiple multi-item scales when a full imputation model is infeasible. BMC Research Notes. 2016; 9:45

Gilbert RE, Mok Q, Dwan K, Harron K, Moitt T, Millar M, Ramnarayan P, Tibby SM, Hughes D, Gamble C; CATCH trial investigators. Impregnated central venous catheters for prevention of bloodstream infection in children (the CATCH trial): a randomised controlled trial. Lancet. 2016 Apr 23;387(10029):1732-42

Hindle JV, Watermeyer TJ, Roberts J, Martyr A, Lloyd-Williams H, Brand A, Clare L. Cognitive rehabilitation for Parkinson's disease demantia: a study protocol for a pilot randomised controlled trial. Trials, 2016; 17(1), 1

Clarkson S, Axford N, Berry V, Edwards TE, Bjornstad G, Wrigley Z, Charles J, Hoare Z, Ukoumunne OC, Matthews J and Hutchings J. Effectiveness and micro-costing of the KiVa school-based bullying prevention programme in Wales: study protocol for a pragmatic definitive parallel group cluster randomised controlled trial. BMC Public Health 2016; 16:104. DOI 10.1186/s12889-016-2746-1

Charles J, Rycroft-Malone J, Aslam R, Hendry M, Pasterfield D. An embedded realist review of what works, for whom, how, and in what circumstances to reduce repeat pregnancies in adolescence: a systematic mixed-methods review. The Lancet, November 2015 Volume: 386: S28

Plumpton CO, Roberts D, Pirmohamed M, Hughes DA. A Systematic Review of Economic Evaluations of Pharmacogenetic Testing for Prevention of Adverse Drug Reactions 2016. doi: 10.1007/s40273-016-0397-9

Holmes EA, Morrison VL, Hughes DA. What influences persistence with medicines? A multinational discrete choice experiment of 2549 patients. British Journal of Clinical Pharmacology. 2016 doi: 10.1111/bcp.12971

Breckenridge A, Hughes D. Prof. John Urquhart. Br J Clin Pharmacol. 2016 May 2. doi: 10.1111/bcp.12974.

Roedd yn drist gan aelodau grŵp ymchwil cadw at feddyginiaeth yn CHEME glywed am farw John Urquhart yn gynharach eleni. John oedd yr enw mwyaf blaenllaw ym maes cadw at feddyginiaeth, ac roedd ganddo ddylanwad enfawr ar sut rydym yn deall ac adnabod beth mae cleifion yn ei wneud gyda'u meddyginiaethau presgripsiwn.

cheme.bangor.ac.uk
cheme@bangor.ac.uk
01248 382153
@CHEMEBangor

Centre for Health Economics & Medicines Evaluation
Ardudwy, Normal Site, Bangor University,
Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ